



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cunliff Street

WRECSAM

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15 Gorffennaf 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cunliff Street

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Cartref Plant
Darparwr Cofrestredig	Keys Young People Limited
Lleuedd cofrestredig	2
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl ifanc yn fodlon eu byd yn byw yn y cartref ac maent yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan dîm o staff ymroddedig. Defnyddir gwybodaeth a gesglir yn ystod y broses cyn derbyn i lywio asesiad y darparwr, cynlluniau personol y bobl ifanc ac asesiadau risg. Mae'r staff gofal yn adolygu'r dogfennau'n rheolaidd pan fydd unrhyw newidiadau ac mae ffeiliau gofal y bobl ifanc yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r staff gofal yn deall anghenion personol y bobl ifanc ac yn hybu eu hannibyniaeth drwy wneud yn siŵr eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac yn byw bywyd iach. Caiff y bobl ifanc eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal, ac maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau â'u gweithwyr allweddol a gynhelir yn rheolaidd. Mae gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ar gael iddynt pan fydd eu hangen, yn ogystal â chymorth therapiwtig drwy wasanaeth mewnol y darparwr. Mae'r bobl ifanc yn gwybod sut i fynegi pryder, maent yn teimlo'n ddiogel ac yn siarad yn gadarnhaol am y staff gofal. Caiff gwahanol wiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal, a chaiff unrhyw waith cynnal a chadw a nodir ei gwblhau. Mae ystafelloedd gwely'r bobl ifanc wedi'u dodrefnu'n addas a'u personoli, ac mae'r bobl ifanc yn helpu i ddewis decor y cartref. Mae'r darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio diogel ac mae'r staff gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol, yn ogystal â chael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwr, sy'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi. Caiff archwiliadau ac adroddiadau monitro ansawdd eu cwblhau hefyd a'u rhannu â thîm uwch-arweinwyr y darparwr.

Llesiant

Mae'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi i reoli eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fynegi eu barn am y gofal a'r cymorth a gânt. Maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau â'u gweithwyr allweddol a gynhelir yn rheolaidd ac yn siarad yn gadarnhaol am y staff gofal a'r staff rheoli. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda ac yn cael eu parchu gan y staff gofal, ac maent yn eu disgrifio fel pobl dda a chlên. Mae'r staff gofal yn rhoi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r bobl ifanc ac mae cofnodion ysgrifenedig yn dogfennu sut i gyflawni hyn.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl ifanc. Mae'r staff gofal yn cofnodi apwyntiadau, argymhellion a chanlyniadau yn ffeiliau gofal y bobl ifanc. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i gefnogi anghenion iechyd a llesiant cymdeithasol y bobl ifanc a llywio eu cynlluniau personol ac asesiadau risg. Caiff y bobl ifanc eu hannog i fyw bywyd iach a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Mae rhai aelodau o'r staff gofal yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg, ac mae canllaw i bobl ifanc ar gael yn Gymraeg. Mae'r darparwr wrthi yn ystyried cyfieithu'r Datganiad o Ddiben i'r Gymraeg.

Mae gan y gwasanaeth bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed. Mae hyfforddiant diogelu ar gael i'r staff, ac mae proses sefydlu'r darparwr yn eu galluogi i ddefnyddio amrywiaeth o weithdrefnau diogelu/amddiffyn plant, gwrth-fwlio, cwyno a chwythu'r chwiban. Nid oedd y polisi chwythu'r chwiban yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ond aeth y darparwr i'r afael â hyn cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Mae'r bobl ifanc yn deall y weithdrefn gwyno ac mae eiriolwr annibynnol ar gael iddynt. Maent yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel, bod y staff gofal yn eu hamddiffyn ac yn "*tell me what's right to do and what's not*" (yn dweud wrthyf beth sy'n iawn i'w wneud a beth sydd ddim yn iawn).

Mae darpariaeth addysgol ar gael ac mae'r bobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae'r staff gofal yn dweud eu bod wedi meithrin cydberthynas waith gadarnhaol yn ogystal â threfniadau cyfathrebu gwych â'r ysgolion yn ystod pandemig COVID-19. Gwnaeth y bobl ifanc barhau i gael addysg yn ystod y pandemig, ac maent yn dweud bod y staff gofal wedi eu cefnogi a'u hannog i gwblhau gwaith ysgol gartref. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a hamdden sydd o ddiddordeb personol iddynt, ac maent yn fodlon ar y dewis sydd ar gael.

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn llety addas sy'n ddiogel ac yn eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Mae'r cartref yn daclus, wedi'i ddodrefnu'n addas, ac yn cynnwys cyfleusterau i annog a datblygu sgiliau byw'n annibynnol y bobl ifanc. Mae ystafelloedd gwely'r bobl ifanc yn cynnwys eitemau personol sy'n bwysig iddynt, ac mae digon o le i sicrhau bod

modd iddynt gael amser preifat neu gymdeithasu â phobl eraill. Gwnaethant ddweud eu bod yn hoffi byw yn y cartref a'u bod yn teimlo wedi setlo a'u bod yn hapus. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol eu cwblhau, ac mae'r cartref wedi elwa ar waith adnewyddu ac ailaddurno sylweddol, ac yn parhau i elwa ar waith o'r fath.

Gofal a Chymorth

Mae'r broses cyn derbyn yn asesu'r ffordd y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl ifanc, ac mae'r cynlluniau personol yn gysylltiedig â chanlyniadau llesiant. Mae'r ddogfennaeth cyn derbyn yn dangos yr ymgynghorir â gwasanaethau comisiynu, sy'n llywio asesiad darparwr manwl yn ogystal â chynlluniau cymorth personol a rheoli ymddygiad cadarnhaol y bobl ifanc ac asesiadau risg. Mae'r staff gofal yn cwblhau cyfnodau trosglwyddo gofal bob dydd ac yn siarad yn gadarnhaol am y llyfr digwyddiadau arwyddocaol newydd a'r ddogfen drosolwg cynllun cymorth newydd sydd wedi arwain at gyfathrebu gwell rhyngddynt. Mae'r staff gofal yn diweddarau cynlluniau personol ac asesiadau risg ac yn rhoi gwybod i'w gilydd am unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r bobl ifanc. Gwelsom enghraifft lle nad oedd gwybodaeth wedi cael ei chynnwys mewn cynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol mewn modd amserol. Gwnaethom argymell y dylid sicrhau cysondeb er mwyn gwneud yn siŵr bod pob dogfen weithredol gyfredol sydd ar waith yn cael ei diweddarau cyn gynted â phosibl. Mae'r staff gofal hefyd yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd y bobl ifanc, ac yn gallu cydgysylltu â thimau therapiwtig y darparwr os bydd angen. Mae fersiynau o gynlluniau personol sy'n ystyriol o blant ar gael hefyd.

Mae systemau ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau bod y staff yn gwrando ar y bobl ifanc. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn mynychu cyfarfod tŷ bob wythnos ac yn cael sesiynau rheolaidd â'u gweithwyr allweddol. Dywedodd un o'r bobl ifanc wrthym ei fod yn mwynhau'r sesiynau â'i weithiwr allweddol lle mae'r staff yn gwrando arnaf. Dywedodd wrthym fod y staff gofal yn ei helpu i ddatblygu ei annibyniaeth a'u bod yn parchu ei hawliau. Mae'r bobl ifanc yn deall sut i gysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol ac eiriolwr annibynnol. Mae'r staff gofal hefyd yn eu hannog ac yn eu helpu i fynychu cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a chael addysg. Dywedodd un o'r bobl ifanc wrthym ei fod yn gwybod sut i wneud cwyn, ac mae'r cofnodion yn dangos nad oes unrhyw gwynion wedi cael eu gwneud ers mis Tachwedd 2019.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd allanol ar gael i'r bobl ifanc. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl ifanc i fynd i apwyntiadau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael gofal meddygol ac yn cofnodi canlyniadau triniaethau yn y ffeiliau gofal. Mae amrywiaeth o wasanaethau sy'n ymwneud ag anghenion corfforol, cymdeithasol a llesiant emosiynol y bobl ifanc ar gael iddynt. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a hamdden sy'n bwysig iddynt, ac yn cael eu hannog i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u

ffrindiau. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn cael eu hannog i fwyta'n iach, yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio bwydlenni, ac yn mwynhau cael tecawê o bryd i'w gilydd. Caiff meddyginiaeth a ragnodwyd ei storio'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant, ac mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth a welsom yn gywir.

Mae gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar waith. Mae'r polisi chwythu'r chwiban yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru ac mae hyfforddiant diogelu ar gael i'r staff gofal. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ymwybodol o sut i roi gwybod am bryderon diogelu, a'u bod yn deall pa mor bwysig yw rhoi gwybod am faterion o'r fath. Mae'r darparwr yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau diogelu hysbysadwy ac yn gwneud atgyfeiriadau diogelu at yr awdurdod lleol pan fydd angen. Mae'r staff gofal o'r farn bod y bobl ifanc yn cael gofal da iawn, a bod y polisi chwythu'r chwiban ar gael iddynt. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ymddiried ym mhroses chwythu'r chwiban y darparwr.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn agos at ganol tref, ac mae amrywiaeth o amwynderau ar gael i'r bobl ifanc megis siopau, cyfleusterau hamdden a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gwnaethom archwilio'r safle a gwelsom bob ystafell yn y cartref yn ogystal â'r ardal awyr agored. At ei gilydd, roedd y rhannau o'r cartref a welsom yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo yn y cartref ar hyn o bryd, ac mae newidiadau sylweddol i'r gegin, ystafell ymolchi a lolfa wedi cael eu gwneud. Mae'r waliau wedi cael eu hailbaentio, mae carpedi newydd ar lawr, ac mae cynlluniau pellach ar y gweill i wella'r ardaloedd dan do ac awyr agored, gan gynnwys y cyntedd lan lofft, swyddfa'r staff, y to a'r ardd gefn. Mae ardaloedd y lolfa a'r ystafell fwyta wedi'u haddurno a'u dodrefnu'n addas ac mae digon o le i eistedd ynddynt. Ceir cyfarpar amrywiol yn y gegin newydd er mwyn hybu sgiliau byw'n annibynnol y bobl ifanc. Mae ystafelloedd gwely'r bobl ifanc wedi'u personoli at eu dant ac yn cynnwys pethau cofiadwy sy'n bwysig iddynt megis teganau, llyfrau, DVDs a ffotograffau. Maent hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddewis decor a dodrefn y cartref. Mae'r bobl ifanc yn rhannu ystafell ymolchi ac ardal doiled ar wahân. Mae dwy ystafell wely arall yn y tŷ sy'n cael eu defnyddio gan y staff gofal pan fyddant yn cysgu ar y safle, a defnyddir un o'r rheini fel swyddfa hefyd. Mae'r ardd gefn fawr yn ddiogel ac mae'n cynnwys sied, bag dyrnu, patio, bwrdd a chadeiriau.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Mae'r rheolwr yn cadw llygad ar y cofnodion cynnal a chadw, ac mae'n eu dilysu a'u llofnodi. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y rheolwr yn rhoi gwybod am welliannau a nodir i'r tîm cynnal a chadw, gan gofnodi pryd y caiff y gwaith ei gwblhau. Mae trafodaethau â'r staff gofal a chofnodion ysgrifenedig yn cadarnhau bod profion ar gyfarpar/dyfeisiau trydanol a gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwnaethom drafod y defnydd o gyfyngwyr ffenestri â'r darparwr oherwydd gwelsom nad oedd ystafell wely un o'r bobl

ifanc yn cynnwys cyfyngwr am resymau personol. Gwnaethom argymhell y dylai'r darparwr geisio rhagor o gyngor a gwybodaeth am hyn a dogfennu unrhyw benderfyniad a wneir mewn asesiad risg.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau ar gael i'r staff gofal. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y darparwr wedi rhoi canllawiau penodol ar reoli COVID-19 iddynt ers dechrau'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol a chynhyrchion glanhau ar gael i'r staff gofal, ac maent yn fodlon ar y gweithdrefnau rheoli heintiau sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae'r cartref wedi profi dau achos o COVID-19, a gafodd eu cadw dan reolaeth. Caiff y staff gofal eu profi am COVID-19 bob wythnos. Maent wedi cael eu brechu, ac mae'r unigolyn cyfrifol yn mynychu cyfarfodydd COVID-19 â'i reolwr llinell ddwywaith yr wythnos.

Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu, ac maent yn darparu sylfaen gadarn er mwyn sicrhau gofal a chymorth o ansawdd i'r bobl ifanc. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael cymorth rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol, sy'n ei gynnwys yn y gwaith o wneud penderfyniadau am y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Mae'r rheolwr yn weddol newydd i'r cartref, a dywed ei fod wedi gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd gan yr unigolyn cyfrifol, sydd wedi ei arwain a'i gynghori fel y bo angen. Dywed fod yr unigolyn cyfrifol a'r darparwr yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau a'i gynlluniau ar gyfer datblygu'r cartref yn weithredol. Mae'r rheolwr yn mynychu cyfarfodydd misol â rheolwyr cartrefi rhanbarthol eraill sy'n cael eu rhedeg gan y darparwr, ac yn mynychu cyfarfod misol â rheolwyr cartrefi plant eraill, lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn rhannu a thrafod datblygu arferion gorau.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus trwyadl, a chaiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn bresennol yn y cartref yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd y bobl ifanc a'r staff gofal fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn gofyn am eu barn o ran eu llesiant personol, eu datblygiad, a'r ffordd y caiff y cartref ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn disgrifio'r unigolyn cyfrifol fel person da, cymwynasgar a hawdd mynd ato. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cadw llygad ar faterion gweithredol drwy system gofnodi gynhwysfawr. Mae'r unigolyn cyfrifol yn derbyn, yn cwblhau ac yn cyflwyno adroddiadau sy'n trafod gwahanol bynciau gweithredol i'r tîm uwch-arweinwyr. Mae'n casglu gwybodaeth drwy ei ymweliadau, gwaith archwilio, ac adroddiadau sicrhau ansawdd manwl a gwblheir gan y rheolwr bob chwarter fel rhan o broses ansawdd y gofal. Caiff themâu penodol sy'n berthnasol i ddarpariaeth y gwasanaeth eu gwerthuso gan ymwelydd annibynnol bob mis. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn cadw llygad ar ei

ganfyddiadau, gan adolygu unrhyw argymhellion a wneir a mynd i'r afael â nhw. Ceir disgrifiad cywir o'r trefniadau presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y datganiad o ddiben presennol hefyd.

Mae niferoedd priodol o staff gofal addas a chymwysedig ar gael ac maent yn cael eu goruchwyllo a'u hyfforddi'n rheolaidd. Mae'r darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio staff manwl ac yn dilysu geirdaon cyflogaeth. Mae angen gwella ar un agwedd ar y broses gyfweled er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth a welir ar ffurflenni cais. Mae staff gofal newydd yn cwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, yn ogystal â rhaglen sefydlu'r darparwr. Mae cofnodion rota'r staff yn dangos bod y niferoedd staffio yn unol â threfniadau'r gwasanaeth comisiynu a bod y darparwr yn bwriadu recriwtio mwy o staff gofal. Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn gweithio sifftiau ychwanegol ar hyn o bryd os nad oes digon o staff ar y rota. Dywed pob un ohonynt eu bod yn fodlon gwneud hyn am eu bod yn rhannu'r oriau yn gyfartal, a thrwy hyn gellir sicrhau bod y bobl ifanc yn cael cymorth cyson gan staff sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am y rheolwr, gan ei ddisgrifio fel person cefnogol, deallgar, a dywedir eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd. Maent yn cydnabod bod y rheolwr wedi dod â sefydlogrwydd i'r cartref, a'i fod yn rhoi arweinyddiaeth ac arweiniad clir iddynt. Mae cofnod hyfforddi'r staff yn dangos bod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael iddynt, ac mae'r staff gofal yn fodlon ar ansawdd a chynnwys yr hyfforddiant.

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi'i gyflawni**

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim	
-----	--

Dyddiad Cyhoeddi 14/09/2021